*This document is available in English* **Eitem Agenda 8**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Y Pwyllgor Archwilio** |
| Dyddiad | **16 Mehefin 2025** |
| Swyddog Arweiniol | **PSTC Anthony Jones, Trawsnewid, Cynllunio a Pherfformiad** |
| Swyddog Cyswllt | **Y Rheolwr Ardal Paul Kay, Atal a Diogelu** |
| Pwnc | **Diweddariad Diogelu Blynyddol 2024–25** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Mae'r Adroddiad Diogelu Blynyddol hwn yn amlinellu gweithgareddau diogelu Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025. Mae'n ailddatgan ymrwymiad y Gwasanaeth i ddiogelu unigolion sy'n agored i niwed ledled Gogledd Cymru, gan fanylu ar nifer ac ar natur yr atgyfeiriadau diogelu a wnaed ar gyfer plant ac oedolion mewn perygl. Mae'r adroddiad hefyd yn tynnu sylw at staff yn bod yn rhagweithiol wrth adnabod ac ymateb i arwyddion o gamdriniaeth, esgeulustod, a chamfanteisio.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Yn 2024–2025, gwnaed 24 atgyfeiriad diogelu plant a 269 atgyfeiriad diogelu oedolion gan y Gwasanaeth. Er bod nifer yr atgyfeiriadau plant ychydig yn is na'r blynyddoedd blaenorol, roedd atgyfeiriadau oedolion yn parhau i fod yn uchel, gan adlewyrchu'r ffaith bod y Gwasanaeth yn gwneud mwy a mwy o waith diogelu cymunedol. Yn Sir Ddinbych y gwelwyd y gyfradd uchaf o ran atgyfeirio plant, ac yng Nghonwy y gwelwyd y gyfradd uchaf o ran atgyfeirio oedolion.

3 Roedd y Gwasanaeth yn dal i wynebu heriau wrth ddarparu hyfforddiant, a hynny oherwydd gofynion cymwysterau, ond cafodd hyn ei liniaru gan bartneriaethau a llwyfannau dysgu digidol. Mae'r blaenoriaethau strategol ar gyfer 2025 yn cynnwys ymgorffori arweinwyr diogelu ar draws rhanbarthau, gwella systemau data, ac addasu hyfforddiant i gyd-fynd â safonau cenedlaethol. Mae'r Gwasanaeth yn parhau i fod yn ymrwymedig i gynnal gwelliant parhaus, tryloywder, a chydweithredu aml-asiantaeth.

**ARGYMHELLIAD**

4 Argymhellir bod yr Aelodau'n nodi ymrwymiad y Gwasanaeth i:

- i) Ehangu gallu hyfforddi mewnol trwy gefnogi staff i gael cymwysterau diogelu uwch;
- ii) gwella ymwybyddiaeth o ddiogelu mewn ardaloedd lle ceir cyfraddau atgyfeirio isel, fel Wrecsam ac Ynys Môn, trwy dargedu allgymorth a hyfforddiant;
- iii) cryfhau'r gwaith o gasglu a dadansoddi data er mwyn monitro tueddiadau yn well ac i lywio penderfyniadau strategol; a
- iv) chyflwyno arweinwyr diogelu swyddogaethol ar draws pob ardal weithredol er mwyn sicrhau cysondeb mewn arfer ac arweinyddiaeth.

**CEFNDIR**

5 Mae'r Gwasanaeth yn chwarae rhan hanfodol wrth ddiogelu unigolion agored i niwed trwy gyflawni ei swyddogaethau atal, amddiffyn, ac ymateb brys. Mae'r Gwasanaeth yn gweithredu o fewn fframwaith cyfreithiol Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ac mae'n gweithio'n agos gyda Byrddau Diogelu Rhanbarthol, awdurdodau lleol, a gwasanaethau iechyd. Mae diogelu yn fater sydd wedi'i ymgorffori yn niwylliant y Gwasanaeth, ac mae'n cael ei gefnogi gan strwythurau llywodraethiant, hyfforddiant, a chydweithrediad rhyng-asiantaethol.

**GWYBODAETH**

6 Plant: 24 o atgyfeiriadau yn 2024, gyda Sir Ddinbych yn cyfrif am draean ohonynt. Dim atgyfeiriadau yn Wrecsam nac yn Ynys Môn.

7 Oedolion: 269 o atgyfeiriadau, gyda'r nifer fwyaf yng Nghonwy. Tuedd gynyddol dros bum mlynedd yn arwydd o'r cynnydd yn y gwaith diogelu a wna'r Gwasanaeth.

8 Hyfforddiant: 906 wedi cwblhau hyfforddiant Lefel A; 893 o staff wedi cwblhau hyfforddiant Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV). Gwaith ar y cyd â Chyngor Conwy yn cefnogi cyflwyno Lefel B.

9 Llywodraethiant: Mae goruchwyliaeth gan Archwilio Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), a thimau archwilio mewnol yn sicrhau cydymffurfiaeth ac atebolrwydd.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r gwaith diogelu yn cefnogi amcanion llesiant GTAGC yn uniongyrchol trwy amddiffyn unigolion sy'n agored i niwed, hyrwyddo cymunedau diogel, a chyfrannu at nodau ehangach Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. |
| Cyllideb | Mae darparu hyfforddiant diogelu, ehangu'r capasiti mewnol, a gwella systemau data yn gofyn am fuddsoddiad ariannol. |
| Cyfreithiol | Rhaid i GTAGC gydymffurfio â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac â'r ddeddfwriaeth diogelu gysylltiedig. |
| Staffio | Mae cyfrifoldebau diogelu yn gosod gofynion ychwanegol ar staff, yn enwedig o ran hyfforddiant a rhoi gwybod am achosion. |
| Cydraddoldeb / Hawliau Dynol / Y Gymraeg | Rhaid i waith diogelu fod yn gynhwysol ac yn hygyrch i bawb, a rhaid iddo barchu hawliau ac anghenion diwylliannol unigolion. |
| Risgiau | Mae'r risgiau allweddol yn cynnwys diffyg rhoi gwybod am achosion mewn rhai ardaloedd, safonau hyfforddi anghyson, a gallu hyfforddi mewnol cyfyngedig. |